

Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar Dwbercwlosis ag Ymwrthedd i'r Prif Gyffuriau Cymdeithas Thorasig Prydain (BTS)

Cleifion heb alluedd i gydsynio: Canllawiau ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Dylid defnyddio'r ffurflen hon dim ond pan nad oes gan glaf sy'n oedolyn (16 oed neu drosodd) alluedd i roi neu wrthod caniatâd i'w gynnwys yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS. Os **oes gan** oedolyn alluedd i dderbyn neu wrthod triniaeth, dylech ddefnyddio'r ffurflen gydsynio safonol a pharchu unrhyw ddewis i wrthod caniatâd.

Os nad oes gan yr oedolyn alluedd erbyn hyn, ond ei bod yn amlwg ei fod wedi gwrthod caniatâd cyn colli galluedd, yna rhaid i chi barchu'r gwrthodiad hwnnw os cafodd ei wneud mewn ffordd ddilys a'i fod yn berthnasol i'r amgylchiadau. I gael rhagor o wybodaeth am y gyfraith ar gydsynio, gweler canllaw'r Adran Iechyd ar gydsyniad ar gyfer archwiliad neu driniaeth, *Reference guide to consent for examination or treatment*.

Er mwyn i gleifion gael eu cynnwys yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS pan nad ydynt yn gallu cydsynio, rhaid i'r claf beidio bod â'r galluedd ('cymhwysedd') i roi neu wrthod caniatâd **A** rhaid i'w gynnwys yn y Gwasanaeth fod er lles pennaf y claf.

Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus, gan ei bod yn esbonio:

- 1) yr hyn y mae 'diffyg galluedd i gydsynio' yn ei olygu;
- 2) yr hyn y mae 'lles pennaf' y claf yn ei olygu;
- 3) y dylai ymgynghori personol roi cyngor lle bynnag y bo modd;
- 4) y bydd cleifion sydd heb alluedd yn cael eu cynnwys yn elfen gynghori'r Gwasanaeth yn unig (**nid** ymchwil);
- 5) sut i fynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae cydsyniad y claf yn amrywio; AC
- 6) sut i gynnwys cleifion nad oes ganddynt alluedd i gydsynio.

1) Galluedd

Ni fydd gan glaf alluedd i gydsynio i ymyriad penodol os yw'n:

- Methu â deall a chofio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad, yn enwedig o ran deall canlyniadau cael neu beidio â chael yr ymyriad dan sylw; a/neu
- Methu â defnyddio a phwyso a mesur yr wybodaeth hon yn y broses o wneud penderfyniadau

Cyn penderfynu nad oes gan glaf alluedd, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol o dan yr amgylchiadau i gynorthwyo'r claf i wneud ei benderfyniadau ei hun (ni fydd hyn yn berthnasol os yw'r claf yn anymwybodol, wrth reswm). Gall hyn gynnwys esbonio'r hyn fydd yn digwydd mewn iaith syml iawn, gan ddefnyddio lluniau a chymhorthion cyfathrebu a chymorthion penderfynu fel y bo'n briodol. Yn aml, gall pobl sy'n agos at y claf (priod/partner, teulu, ffrindiau a gofalwyr) helpu, yn ogystal â chydweithwyr arbenigol megis therapyddion lleferydd ac iaith neu dimau anableded dysgu, ac eiriolwyr neu gefnogwyr annibynnol.

Mae galluedd yn 'benodol i benderfyniad': efallai na fydd gan glaf alluedd i wneud penderfyniad cymhleth penodol, ond y gall wneud penderfyniadau eraill, mwy syml, neu rannau o benderfyniadau.

2) Lles pennaf

Nid yw lles pennaf claf yn gyfyngedig i'w les meddygol yn unig. Mae'r ffactorau eraill sy'n rhan o'r penderfyniad er lles pennaf yn cynnwys: dymuniadau a chredoau'r claf pan oedd yn gymwys, ei dymuniadau presennol, ei lesiant cyffredinol, ei les ysbrydol a chrefyddol. Felly, gall dau glaf heb alluedd, y mae eu *cyflwr corfforol* yn union yr un fath, fod â lles pennaf tra gwahanol.

Oni bai bod y claf wedi nodi'n glir na ddylai unigolion penodol fod yn rhan o'i ofal, neu oni bai bod brys ei sefyllfa'n atal hynny, dylech geisio cynnwys pobl sy'n agos at y claf (priod/partner, teulu, ffrindiau, gofalwr, cefnogwr neu

eiriolwr) yn y broses o wneud penderfyniadau. Ni all y rhai sy'n agos at y claf fynnu eich bod yn darparu triniaeth benodol nad ydych chi'n credu sy'n briodol yn glinigol. Fodd bynnag, byddant yn adnabod y claf yn llawer gwell na chi, ac felly maent yn debygol o ddarparu gwybodaeth werthfawr am ddymuniadau a gwerthoedd y claf.

3) Gofyn am gyngor gan Ymgynghorai Personol

Os ydych yn dymuno cynnwys oedolyn heb alluedd yn y Gwasanaeth, rhaid i chi gymryd 'camau rhesymol' i nodi a cheisio cyngor (nid cydsyniad) gan Ymgynghorai Personol. Rhaid i'r cyngor hwn fod ar sail gwybodaeth ac wedi'i gael yn yr un modd ag y byddai cydsyniad wedi cael ei roi.

Dylai Ymgynghorai Personol fod yn rhywun sy'n adnabod yr oedolyn heb alluedd yn dda, boed yn ffrind neu'n aelod o'r teulu. Gofynnir iddo roi o'r neilltu ei deimladau personol a chynghori'r tîm clinigol ar yr hyn y byddai'r oedolyn heb alluedd yn debygol o fod wedi penderfynu pe bai ganddo alluedd. Mae rôl Ymgynghorai yn wirfoddol: ni ddylai unigolion deimlo dan bwysau i gynnig eu cyngor.

Ni all Ymgynghoreion Personol fod yn weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofalu am yr oedolyn heb alluedd. Pan fydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd ond nad oes modd dod o hyd i Ymgynghorai Personol, gallwch ofyn am Ymgynghorai a Enwebir. Yn nodweddiadol, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofalu am yr unigolyn fydd hwn. Ni all Ymgynghoreion a Enwebir fod ag unrhyw gysylltiad â'r Gwasanaeth.

4) Ni fydd data cleifion sydd â diffyg galluedd yn cael ei brosesu ar gyfer ymchwil

Mae dwy elfen i'r Gwasanaeth Cyngor ar MDR-TB BTS: cyngor ac ymchwil. Mae data'r holl gleifion sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth yn cael ei brosesu at ddibenion cyngor ynghylch eu gofal a'u triniaeth.

Ni fydd data cleifion nad oes ganddynt alluedd i gydsynio yn cael ei brosesu at ddibenion ymchwil. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosib o brosesu data yn digwydd ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu rhoi caniatâd.

5) Cydsyniad sy'n amrywio

Os yw cyfranogwr yn adennill galluedd, dylid rhoi gwybod iddo'n llawn am y Gwasanaeth a rhoi gwybodaeth am y ffaith ei fod wedi'i gynnwys ynddo. Dylid ei gwneud yn glir iddo hefyd fod ei ddata wedi cael ei brosesu at ddibenion cyngor yn unig, ac **nad** ydyw wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad ar gyfer ymchwil.

Yna dylid ceisio cael cydsyniad y claf i gael ei gynnwys yn y Gwasanaeth ac i gadw unrhyw ddata a gofnodir mewn perthynas â'r claf. Os yw'r claf yn nodi nad yw'n dymuno cael ei gynnwys yn y Gwasanaeth, dylid dileu ei gofnod.

Fel rhan o'r broses ar gyfer ceisio cydsyniad cleifion, bydd cleifion sydd wedi adennill galluedd yn cael cyfle i gydsynio i brosesu eu data (neu optio allan o brosesu eu data) at ddibenion ymchwil.

6) Cynnwys cleifion sydd heb alluedd i gydsynio

I gynnwys claf nad oes ganddo alluedd i gydsynio, mae angen gwneud y canlynol:

- a) Asesu galluedd y claf i gydsynio (*tudalen 3*)
- b) Dod o hyd i Ymgynghorai Personol ac egluro'r Gwasanaeth iddo (*tudalennau 4-6*)
- c) Ceisio cydsyniad gan yr Ymgynghorai Personol (*tudalen 7*)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, cysylltwch â BTS ar mdrtb@brit-thoracic.org.uk

DATGANIAD GWEITHIWR GOFAL IECHYD PROFFESIYNOL
 CLEIFION HEB ALLUEDD I GYDSYNIO

Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB Cymdeithas Thorasig Prydain

Enw'r claf:
Rhif GIG/CHI:
Rhif Adnabod y Claf (yr ysbyty i gwblhau hwn):

Asesu galluedd y claf i gydsynio

Rwy'n cadarnhau nad oes gan y claf alluedd i roi neu atal caniatâd i gael ei gynnwys yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS oherwydd

- Ni all y claf ddeall a chofio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad; a/neu
- Ni all y claf ddefnyddio a phwyso a mesur yr wybodaeth hon yn y broses o wneud penderfyniadau; neu
- Mae'r claf yn anymwybodol

Os yw'r claf yn ymwybodol, rhowch ragor o wybodaeth am sut y daethpwyd i'r farn uchod (e.e. pa gydweithwyr yr ymgynghorwyd â hwy, pa ymdrechion a wnaed i gynorthwyo'r claf i wneud ei benderfyniad ei hun, a pham nad oedd hyn yn llwyddiannus):

Llofnod:

Dyddiad:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Pan fo ail farn wedi'i cheisio, dylai'r person hwnnw lofnodi isod i gadarnhau cytundeb:

Llofnod:

Dyddiad:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Ar gyfer yr ysbyty: ar ôl ei gwblhau, gofynnwn i chi sicrhau bod dau gopi:

- Un i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf, a
- Un (y gwreiddiol, os yw wedi'i lofnodi) ar gyfer ffeil y safle.

Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS Gwybodaeth ar gyfer Ymgynghorion Personol

(Personau sy'n gweithredu ar ran cleifion nad oes ganddynt alluedd i gydsynio)

Rydym yn teimlo nad yw eich perthynas / ffrind yn gallu penderfynu drosto'i hun a ddylai gymryd rhan yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS.

Er mwyn helpu i benderfynu a ddylid ei gynnwys, hoffem ofyn eich barn ar b'un a fyddai am gymryd rhan ai peidio. Gofynnwn i chi ystyried yr hyn rydych chi'n ei wybod am ei ddymuniadau a'i deimladau, ac ystyried ei fuddiannau. Rhowch wybod i ni am unrhyw benderfyniadau ymlaen llaw y gallai fod wedi'u gwneud ynghylch cymryd rhan gan y dylai'r rhain gael blaenoriaeth.

Os byddwch yn penderfynu na fyddai gan eich perthynas/ffrind unrhyw wrthwynebiad i gymryd rhan, byddwn yn gofyn i chi ddarllen a llofnodi'r datganiad ymgynghorai ar dudalen olaf y ddogfen hon. Yna byddwn yn rhoi copi i chi i'w gadw. Byddwn yn parhau i gysylltu â chi yn ystod yr astudiaeth er mwyn i chi roi gwybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych yn credu na ddylai'ch perthynas / ffrind gymryd rhan mwyach.

Os byddwch yn penderfynu na fyddai eich ffrind/perthynas yn dymuno cymryd rhan, ni fydd yn effeithio ar safon y gofal y mae'n ei dderbyn mewn unrhyw ffordd.

Os nad ydych yn siŵr am gymryd rôl ymgynghorai, gallwch ofyn am gyngor annibynnol. Byddwn yn deall os nad ydych am ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn union yr un fath â'r wybodaeth a fyddai wedi'i darparu i'ch perthynas/ffrind gydag un eithriad: pan fydd cleifion yn gallu cydsynio drostynt eu hunain, rydym hefyd yn gofyn iddynt a hoffent i'w data gael ei ddefnyddio mewn ymchwil. Gan na all eich perthynas/ffrind gydsynio drosto'i hun, ni fyddem yn defnyddio ei wybodaeth ar gyfer ymchwil, dim ond ar gyfer darparu cyngor am ei driniaeth.

Mae Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS yn brosiect sydd wedi'i sefydlu er mwyn gwella gofal cleifion. Gall cleifion sydd â thwbercwlosis sydd ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau (MDR-TB) a rhai heintiau TB / mycobacteriwm cymhleth eraill gymryd rhan. Mae arbenigwyr TB blaenllaw o bob rhan o'r DU yn adolygu achosion a rhoi cyngor ar ba driniaeth fyddai fwyaf addas.

Beth yw Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS?

Mae heintiau sy'n cael eu hachosi gan facteria o'r enw twbercwlosis (neu facteria tebyg arall) yn cael eu trin â chyffuriau. Weithiau, ni ellir defnyddio rhai cyffuriau oherwydd nad ydynt yn gweithio ar yr haint (mae gan yr haint ymwrthedd). Weithiau, ni ellir eu defnyddio am resymau eraill. Mae hyn yn golygu ei bod yn mynd yn anoddach i feddygon drin yr haint.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol yn helpu meddygon i ofyn am gyngor gan arbenigwyr sydd â llawer o brofiad o drin MDR-TB. Mae'r arbenigwyr hyn yn trafod pob claf ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau o ofalu am y claf a thrin ei haint. I wneud hyn, rydym yn casglu gwybodaeth am gleifion ac yn ei chadw.

Rydym yn cofnodi nifer y bobl, eu lleoliad a manylion am eu hiechyd a'u triniaeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol ddiogel a chyfrinachol. Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n talu am Wasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS, a gellir derbyn grantiau bach i gefnogi'r gwaith hwn.

Pam mae angen Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB?

Mae'r heintiau hyn yn gymhleth ac nid ydynt yn gyffredin iawn. Ym mhob achos, maent yn cael eu trafod gan feddygon ac eraill sydd ag arbenigedd mewn heintiau, cyffuriau, iechyd y cyhoedd, etc. Ychydig iawn o feddygon sydd â phrofiad o drin MDR-TB yn y DU, ac mae ein Gwasanaeth ni yn eu helpu i drafod achosion gyda'i gilydd.

Pa wybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB?

Mae'r hyn a gasglwn yn debyg i'r wybodaeth a gofnodir yn ystod ymweliad â chlinig. Mae'n cynnwys:

- Taldra a phwysau
- Canlyniadau profion eraill (meithriniadau, profion pelydr-x, canlyniadau profion gwaed a thebyg)
- Pa gyffuriau a thriniaethau eraill y mae cleifion yn eu derbyn
- Unrhyw gymhlethdodau sydd gan gleifion.

Rydym hefyd yn cadw gwybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch adnabod chi (fel enw a dyddiad geni, etc.). **Dim ond** er mwyn i staff ysbytai wybod i bwy mae pa gofnod yn perthyn y mae'r 'dynodwyr' hyn yn cael eu casglu. Nid yw gwybodaeth a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod **byth** yn cael ei rhyddhau i unrhyw un y tu allan i'ch tîm gofal (dyw hyd yn oed staff BTS ddim yn gwybod pwy yw'r cleifion).

Sut mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu ac ar gyfer beth mae'n cael ei defnyddio?

Daw'r wybodaeth o'r nodiadau y mae meddygon a nyrsys yn eu gwneud yn ystod ymweliadau ysbyty. Mae staff ysbytai yn mewnbynnu data i'n Gwasanaeth, a gallant ei ddefnyddio i weld canlyniadau cleifion dros amser. Hefyd, gall gwybodaeth am ba gyffuriau y gallai'r haint ymateb iddynt gael ei chynnwys o'r labordai cenedlaethol sy'n profi samplau TB o bob rhan o'r DU.

Mae ein Gwasanaeth yn rhoi mynediad i feddygon at arbenigwyr MDR-TB gorau'r wlad. Mae pob achos yn cael ei adolygu gan yr arbenigwyr hyn gymaint o weithiau ag y bo angen, a rhoddir cyngor ar ba driniaeth fyddai orau.

Mae BTS yn bwriadu cynnal Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS am y dyfodol rhagweladwy a bydd yn cadw'r data am gyfnod amhenodol.

Gall ymchwilwyr mewn sefydliadau eraill wneud cais i BTS i gael mynediad at wybodaeth iechyd ddienw. Fodd bynnag, ni fydd data cleifion nad oes ganddynt alluedd i gydsynio **byth** yn cael ei ddefnyddio mewn ymchwil. Dim ond ar gyfer darparu cyngor ar driniaeth ac i fonitro sut mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol yn cael ei redeg y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio.

A fydd yr wybodaeth yn gyfrinachol?

Bydd - cedwir yr holl wybodaeth yn ein Gwasanaeth yn gyfrinachol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor Clinigol wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Diogelu Data (2018) ac mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi rhoi cymeradwyaeth iddo (adnewyddwyd Tachwedd 2022 22/LO/0698). Fe'i rheolir yn unol â deddfau a chanllawiau moesegol perthnasol.

- Bydd gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod cleifion (fel enw a dyddiad geni, etc.) yn weladwy i'r tîm sy'n eu trin yn eu hysbyty eu hunain.
- Yr unig bobl eraill a fydd yn gweld **unrhyw** wybodaeth adnabyddadwy yw nifer fach o staff yn y cyrff iechyd gwladol. Maent eisoes yn cadw data ar bob achos o TB yn y wlad, ac yn profi samplau TB i weld pa gyffuriau fydd yn gweithio. Rydym yn rhoi rhestr o rifau adnabod iddynt (e.e. eich rhif GIG). Mae hyn er mwyn iddynt allu rhoi gwybodaeth ychwanegol i ni, fel pa gyffuriau fyddai'n debygol o helpu pob claf.
- Ni all y tîm yn BTS adnabod y cleifion, dim ond rhif adnabod cleifion dienw y byddwn yn ei weld.

Mae nifer fach iawn o staff profiadol yn gyfrifol am ddiogelu manylion adnabod cleifion. Maent yn eu hamgryptio ar y gronfa ddata, sy'n golygu bod yr wybodaeth yn cael ei throsi'n god cymhleth iawn nad oes neb yn gallu ei ddarllen. Dim ond staff yn eich ysbyty chi sy'n gallu ei ddarllen trwy eu cyfrifon diogel. Mae'r staff hyn yn cynnal y system, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

A fydd yr wybodaeth yn cael ei chysylltu â gwybodaeth o unrhyw setiau data eraill?

Efallai hefyd yr hoffem ddefnyddio eich gwybodaeth iechyd a gesglir gan sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, NHS Digital neu debyg. I gael yr wybodaeth hon, bydd angen i ni ddatgelu dyddiad geni a rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn unig; bydd y manylion hyn yn cael eu trin yn gyfrinachol ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (2018).

Hawliau data'r claf

Cymdeithas Thorasig Prydain yw'r rheolydd data ar gyfer y prosiect hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os ydych am wneud cwyn neu os ydych am i wybodaeth amdanoch gael ei thynnu oddi ar Wasanaeth Cyngor Clinigol MDR-TB BTS, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn mdrtb@brit-thoracic.org.uk neu anfonwch lythyr i Cymdeithas Thorasig Prydain/British Thoracic Society, 17 Doughty Street, London WC1N 2PL.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu'n credu ein bod yn prosesu data personol mewn ffordd anghyfreithlon, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y daflen wybodaeth hon ac am ystyried a ddylai eich perthynas / ffrind gael ei drafod yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, siaradwch ag aelod o'r tîm gofal yn eich ysbyty neu cysylltwch â Rheolwr y Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB yng Nghymdeithas Thorasig Prydain ar 020 7831 8778.

13/11/2022

FFURFLEN GYDSYNIO YMGYNGHORAI: CLEIFION HEB ALLUEDD I GYDSYNIO

Gwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB Cymdeithas Thorasig Prydain

Enw'r claf:
Rhif GIG/CHI:
Rhif Adnabod y Claf (yr ysbyty i gwblhau hwn):

Enw Ymgynghorai Personol:
Y berthynas â'r claf:

Rhowch lythrennau cyntaf eich enw

1.	Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth dyddiedig mis Tachwedd 2022 (fersiwn 3) ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ystyried yr wybodaeth a gofyn cwestiynau ac rwyf wedi cael atebion boddhaol.	
2.	Rwy'n deall nad oes rhaid i mi gytuno a gallaf newid fy meddwl ar unrhyw adeg, heb roi unrhyw reswm. Ni fydd gofal meddygol na hawliau cyfreithiol fy mhartner/ffrind yn cael eu heffeithio.	
3.	Rwy'n deall y gall nifer fach o bobl gyfrifol o'r tîm meddygol, y grŵp o arbenigwyr MDR-TB a Chymdeithas Thorasig Prydain edrych ar wybodaeth iechyd a gofal fy mherthynas/ffrind.	
4.	Rwy'n deall y gall gwybodaeth a gedwir gan y GIG (neu'r HSC yng Ngogledd Iwerddon) a chofnodion a gynhelir gan sefydliadau fel y cyrff iechyd cyhoeddus cenedlaethol gael ei defnyddio i ddilyn statws iechyd fy mherthynas/ffrind.	
5.	Deallaf na fydd gwybodaeth a all gael ei defnyddio i adnabod fy mherthynas/ffrind byth yn cael ei rhoi i unrhyw un arall nac yn cael ei chyhoeddi gan Wasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS.	
7.	Yn fy marn i, ni fyddai gan fy mhartner/ffrind unrhyw wrthwynebiad i gymryd rhan yng Ngwasanaeth Cyngor Clinigol ar MDR-TB BTS.	

Enw'r Ymgynghorai Personol	Llofnod	Dyddiad

Enw'r person sy'n derbyn y cydsyniad	Llofnod	Dyddiad

Ar gyfer yr Ymgynghorai Personol: efallai y byddwch wedi cael y daflen hon i'w chwblhau gartref. Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r tîm yn yr ysbyty. Gallwch gwblhau/dychwelyd y ffurflen:

- Trwy lofnodi copi papur a'i dychwelyd i'ch tîm ysbyty drwy'r post, neu drwy ei sganio neu dynnu llun ohono a'i dychwelyd mewn e-bost.
- Trwy lofnodi copi electronig naill ai drwy ludo neu deipio eich llofnod, a'i dychwelyd i'ch tîm ysbyty mewn e-bost.

Ar gyfer yr ysbyty: Pan fydd y ffurflen wedi ei chwblhau, sicrhewch fod gennych dri copi - un ar gyfer yr ymgynghorai personol, un i'w gadw yn nodiadau meddygol y claf, ac un (y gwreiddiol, os yw'r copi hwnnw wedi'i lofnodi) ar gyfer ffeil y safle.